### ❖ Ganwyd Baban

Daeth y Seren ac fe safodd
Uwch y llety yn y nos;
A'r bugeiliaid syn a welodd
Olau gwyn dros fryn a rhos.
Llawen ganai yr angylion
Am ogoniant yn y nef,
A goleuach y gorwelion
Wedi gwyrth Ei eni Ef.

Mair a Joseff wrth y preseb,
Deigryn cariad ar eu grudd, –
Roedd y gwair yn cuddio wyneb
Mab y Wawr cyn toriad dydd.
Ŷch, heb iau, yn cysgu'n dawel;
Asyn rhydd yn effro'i drem;
Ac yn un â chân yr awel
Canai clychau Bethlehem.

Hon oedd noson wen y geni,
Nos oleua'r byd erioed;
Iesu'n dod a dangos inni
Flodau'r Nef yn ôl Ei droed.
Ganwyd Baban, disglair Faban,
Yn Feseia dynol-ryw;
Ganwyd Baban, ganwyd Baban –
Haleliwia i Fab Duw.

**Eirian Davies**